**<u>ARGYMHELLION CYFARFOD Y PWYLLGOR MWYNDERAU A GYNHALIWYD AR 20 HYDREF 2025</u>**

DRAFT

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Peter Jones

Troy Maclean

Geoffrey Jones

David Meirion Jones

Marc Lloyd Griffiths (ar Zoom)

Mark Thomas (ar Zoom)

Rory Francis

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Yn absenoldeb y Cadeirydd, cymeroddd Y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y Gadair.

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Dafydd Dafis, Morwenna Pugh a Gareth Davies.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Cyfranogiad y Cyhoedd**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

**4. Adroddiad Misol Archwilio Caeau Chwarae**

Adroddodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod twll mawr o flaen y gôl yng Nghae Manod a bod postyn ffens wedi torri. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y garddwyr yn rhoi blaenoriaeth i drwsio'r twll. At hyn, cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones bod y gardddwr yn golchi llawr cofgolofn Rhiw gydag offer jet. Cytunodd pawb.

**5. Adroddiad Misol y Cerddwr Llwybrau**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**6. Rhestr Waith y Swyddog Cynnal a Chadw**

Derbyniwyd yr adroddiad.

**7. Ffensys y MUGA**

Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod y Cyngor Tref yn derbyn y dyfynbris gan N W Fencing i ymestyn uchder y ffensys o amgylch y MUGA. Ataliodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths ei bleidlais. Dywedodd bod angen gofyn am ddatganiad dull gan y cwmni yn esbonio sut roeddynt am fynd ati i wneud y gwaith, a'r angen i sicrhau bod y planhigion o gwmpas yr ardal yn cael eu gwarchod.

**8. Cais Pecyn Perllan Cadw Cymru'n Daclus**

Adroddodd y Clerc nad oedd y Cyngor Tref wedi bod yn llwyddiannus ar yr achlysur hwn, ond y byddai Cadw Cymnru'n Daclus yn rhoi'r Cyngor ar y rhestr wrth gefn, rhag ofn y byddai arian dros ben. Derbyniwyd yr adroddiad.

**9. Arwydd Cae Manod**

Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y Cyngor Tref yn talu cost hysbysebu am ddwy flynedd arall, sef £180, a bod y Cyngor hefyd yn prynu arwydd newydd gan fod yr hen un mewn cyflwr braidd yn wael, a hynny am £300. Cytunodd pawb.

**10. Ebost Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd**

Trafodwyd gwahoddiad gan Swyddog Llwybrau Gwynedd i gyfarfod safle yn Llan Ffestiniog ar y 6ed o Dachwedd. Dywedodd y Cynghorydd Marc Lloyd Griffiths y gallai ef fynd i'w gyfarfod.

**11. Prosiect Bioamrywiaeth Sgwâr Oakeley**

Adroddwyd y byddai cyfarfod gyda Hywyn Williams am 1.30pm ar y 21ain o Hydref i drafod y prosiect.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.23pm

DRAFT